

Cyflwyniad

Byddaf yn trafod pwysigrwydd perthynas yr ysgol efo rhieni a beth yw’r manteision o gael y cyswllt yma. Yn ogystal â’r perthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned a beth yw’r manteision o’r perthynas yma.

Lleoliad

Mae fy ysgol wedi’i leoli mewn hen bentref mwynloddio. Mae yna ysgol wedi bod yn y pentref ers 1875, er erbyn 2017 cawsant nhw ysgol newydd passivhaus. Mae hyn yn golygu bod yr adeilad yn lleihau ôl troed ecolegol sy’n dda am yr amgylchedd. Dyma’r ysgol passihvas llawn cyntaf yng Nghymru erioed. Mae’n ysgol Gymunedol Gymraeg. Mae yna 184 o ddisgyblion yn yr ysgol. Presenoldeb yr ysgol yn 2018 oedd 93.4% (Fy Ysgol Leol, 2018)

Perthynas efo’r gymuned

Mae’r ysgol yn gwneud llawer efo’r gymuned. Mae ganddyn nhw ardd gymunedol yn yr ysgol. Yn yr haf maen nhw’n defnyddio’r cae rygbi’r pentref am fabolgampau sy’n dangos bod yr ysgol yn wneud defnydd o’r cyfleusterau lleol. Yn ôl Vygotsky (1978) mae’r dysgu pwysicaf i blentyn yn digwydd trwy ryngweithiadau cymdeithasol. Mae’n bwysig oherwydd mae’n gallu gwella sgiliau cyfathrebu, sgiliau iaith gryf a hyder plant. Mae llawer o arddangosfeydd yn yr ysgol sydd am yr ardal leol. Thema blwyddyn 1 tymor diwethaf oedd ‘Fy ardal leol’. Mae hyn yn dda oherwydd mae’r plant yn cael siawns i ddysgu am eu hardal nhw. Mae’r ysgol yn cynnal cyngerdd Nadolig blynyddol yn Gapel y pentref. Sy’n ffordd dda i’r ysgol gysylltu â’r gymuned yn ogystal â rhieni. Mae’n bwysig i gynnwys plant yn yr gymuned fel eu bod yn dysgu sut i gymryd rhan mewn ffordd ymarferol ym mywyd a phryderon eu cymunedau (Ysgol Gynradd Whitchurch).

Yr ardal

Mae 33.4% (Fy Ysgol Leol, 2018) o’r ysgol yn mynychu mewn prydau bwyd am ddim (PBAD). Mae hyn yn awgrymu bod yr ardal yn ddifreintiedig. Mae plant sy’n mynychu mewn PBAD yn fwy tebygol o gael canran presenoldeb sy’n llai na phlant sydd ddim yn mynychu mewn PBAD (Cook, Rutt a Sims, 2014, tud.13). Ar gyfer y disgyblion sy’n mynychu mewn PBAD mae’r ysgol wedi derbyn grant amddifadedd disgyblion sydd i wella’i chanlyniadau. Er bod y bwlch rhwng disgyblion sy’n derbyn PBAD a rhai sydd ddim yn derbyn yn fwy amlwg yn yr ysgol uwchradd mae’n bwysig ein bod ni’n lleihau’r bwlch cyn iddo fod yn broblem yn ysgol gynradd. Yn ôl Egan (2013, tud 4) mae plant sydd wedi derbyn PBAD mor ifanc â dosbarth derbyn yn gallu fod lan i flwyddyn tu ôl i blant sydd ddim yn derbyn. Er yn ddweud hyn yn ôl dogfen Llywodraeth Cymru (2016, tud 5) mae’n dweud er bod hyn yn wir, mae plant sydd efo cefnogaeth gryf o’i deuluoedd/rhieni yn gallu newid y tuedd yma.


Dechrau wrth fy nhraed

Dechrau’n Deg

Mae yna ganolfan Dechrau’n deg ar bwys fy ysgol lleoliad. Mae’n rhaglen ar gyfer plant 0-3 blwydd oed sy’n llai ffodus. Nid dim ond plant maent yn cefnogi ond teuluoedd a rhieni hefyd. Maent yn cynnal gweithgareddau ar gyfer teuluoedd er mwyn helpu nhw efo gofal plant



Logo Dechrau’n Deg (2020)



Fy lluniau (2020)



Estyn

Yn ôl adroddiad Estyn (2017) roedd yr ysgol wedi llwyddo mewn pob rhan o’r ymchwiliad. Mae’r disgyblion yn yr ysgol yn ystyried anghenion eraill gan godi arian ar gyfer addysg yn Luhimba. Mae hyn yn dangos cysylltiad byd-eang efo’r ysgol. Nodwyd Estyn (2017) bod y plant yn dda yn ailgylchu ac mae hyd yn oed ganddyn nhw gyngor eco sy’n canolbwyntio ar edrych ar ôl yr amgylchedd a’r gymuned. Y categori oedd yr ysgol wedi llwyddo mewn mwyaf oedd gofal, cefnogaeth ac arweiniad lle cawson nhw ‘rhagorol’ am eu perfformiad. Nodwyd bod partneriaeth ragorol gan yr ysgol a’r rhieni, lle mae’r staff yn hyrwyddo diwylliant agored a chefnogol.

Ymddangosiad

Mae gan ysgolion gwisgoedd fel bod y disgyblion yn hafal i’w gilydd. Ond mae llawer o fanteision arall iddynt. Maen nhw’n gallu hyrwyddo’r teimlad o gymuned, fel bod nhw’n rhan o dîm yr ysgol .Mantais arall yw dyw e ddim yn gystadleuol oherwydd bod pawb yn gwisgo’r un wisg. Mae’n hyrwyddo dysgu, o’r achos bod nhw ddim yn ffocysu ar beth maen nhw’n gwisgo ond ar feth maen nhw’n dysgu. (American Preparatory Schools, 2019). Mae i’w weld yn gallu gwella ymddygiad plant gan fod nhw’n gwisgo yn fwy proffesiynol nag arfer (Kouzmine, 2019)

Perthynas efo rhieni-

Mae’r ysgol yn wneud llawer efo’r rhieni. Mae gan ddisgyblion blwyddyn 1 bag gwaith cartref sy’n cynnwys llyfr darllen, gwaith cartref a llyfr sylwadau. Mae’r llyfr sylwadau yn ffordd dda i’r rhieni cofnodi fel oedd ei blentyn wedi delio efo’i gwaith a’i darllen. Mae’n hanfodol bod y rhieni yn gallu rhoi sylwadau cadarnhaol a negyddol am waith ei blentyn sy’n ffordd dda o ddangos i’r athrawon beth mae angen i’r plentyn gwella (Ysgol Gynradd Croyland, 2020). Danfonwyd cylchlythyron yr ysgol adref pob hanner tymor. Mae hyn yn ffordd dda o ddangos i’r rhieni beth sydd wedi digwydd yn ystod y tymor, i gael nhw i deimlo bod nhw hefyd yn rhan o gymuned yr ysgol. Er mwyn i rieni gwybod pa weithgareddau/clybiau sy’n mynd ymlaen yn yr ysgol mae app ysgol i gael sy’n cynnwys newyddion a chalendr. Mae’n hawdd cael mynediad iddo, mae hyn yn dda i’r rhieni sydd ddim efo’r amser i ymweld â’r ysgol am wybodaeth (Kishore, 2017).



Beth yw’r manteision o gael cyswllt da gyda’r cartref?

Yn ôl dogfen Llywodraeth Cymru (2016, tud 7) pan mae rhieni yn cymryd rhan weithredol yn addysg ei blentyn mae’n gwella ymddygiad y plentyn yn ysgol. Mae annog plant i ddysgu gartref yn wneud yn rhwyddach i blant i ddysgu yn ysgol. Yn ogystal â hyn mae problemau/pryderon yn gallu cael ei ddatrys yn gyflymach pan mae cysylltiad agos gan y rhieni a’r ysgol. Mantais arall yw bod athrawon yn gallu gweld agwedd y disgybl/disgyblion at ddysgu. Mae’n annog rhieni/gwarchodwyr i helpu eu plant adref, gan fod cymorth ganddynt o’r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2016, tud 7).Mantais arall yw bod e’n gallu gwella hyder a hunan hyder plant sy’n bwysig iawn i gael yn ifanc. Mae hyder yn bwysig i hapusrwydd, iechyd a llwyddiant plentyn yn y dyfodol. Mae plant hyderus yn fwy parod i ddelio efo pwysau, cyfrifoldeb a heriau yn y dyfodol (Cunningham, 2015).

Cyfeirnodau

American Preparatory Schools (2019). *What Are Good Reasons For Wearing School Uniforms*. Ar gael yn: <https://www.americanprep.org/what-are-good-reasons-for-wearing-school-uniforms/> (Darllenwyd: 5 Chwefror 2020).

Cook, R., Rutt, S. and Sims, D. (2014). *Deprivation in Education*. Slough: NFER.

Cunningham, B. (2015) *The Importance of Positive Self-Esteem for Kids*. Ar gael yn: <https://www.understood.org/en/friends-feelings/empowering-your-child/self-esteem/the-importance-of-positive-self-esteem-for-kids> (Darllenwyd 3 Chwefror 2020).

Egan, D. (2013) *Poverty and Low Educational Achievement in Wales: Student, Family and Community Interventions*. York: JRF.

Estyn (2017). *Adroddiad Fy Ysgol Lleoliad*. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Trimsaran%20C%20P%20School%20en.pdf> (Darllenwyd: 6 Chwefror 2020).

Fy Ysgol Leol (2019) *Trimsaran C.P. School*. Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6692175?lang=en> (Darllenwyd: 4 Chwefror 2020).

Kishore, K. (2017). *8 Reasons Why School Apps Are Important For Parents And Students*. Ar gael yn: <https://elearningindustry.com/school-apps-are-important-for-parents-and-students-8-reason> (Darllenwyd: 3 Chwefror 2020).

Kouzmine, M. (2019). *Benefits of School Uniforms for Students*. Ar gael yn: <https://www.verywellfamily.com/school-uniform-pros-2101089> (Darllenwyd: 6 Chwefror 2020).

Llywodraeth Cymru (2016) *Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru*. Caerdydd.

Logo Dechrau'n Deg (2020). Ar gael yn: <https://fis.carmarthenshire.gov.wales/flying-start/> (Darllenwyd: 1 Chwefror 2020)

Vygotsky, L. S. (1978) *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Ysgol Gynradd Croyland (2020). *Parental Reading Diary Comments*. Ar gael yn: <http://www.croylandprimary.co.uk/files/Learning%20Zone/Reading/1E895F5A7524F75FA396FABDBBF1ADD6.pdf> (Darllenwyd: 1 Chwefror 2020).

Ysgol Gynradd Whitchurch. *Cysylltiadau Cymunedol*. Ar gael yn: <https://primarysiteprod.s3.amazonaws.com/uploads/d64c4a709f1e4d56a0b75dd230127708/270f/OurCommunityLinks.pdf> (Darllenwyd: 31 Ionawr 2020).